Canllawiau Cred – Pennod 6

6

AMLYGAF FY HUN

Er mwyn egluro i'w ddisgyblion sut y gallent ddod o hyd i'r gweddïau y gallent eu gweddïo 'yn ei enw', tynnodd Iesu Grist eu sylw'n gyntaf at y ffaith fod ei orchmynion a'i air ganddynt eisoes. Os oeddent yn ei garu, byddent yn sicr o'u 'cadw'. Yna, bob yn ail â'i gyfeiriadau at ei orchmynion a'i air (Ioan 14:15, 21 a 23), eglurodd beth a wnâi yntau i'w cynorthwyo ymhellach. Yn gyntaf, gweddïai drostynt (adnod 16). Ymateb y Tad i'w weddi fyddai rhoi'r Ysbryd Glân iddynt. Yn ail, byddai yntau'n dychwelyd atynt (adnod 18). Ac, o ganlyniad i dderbyn yr Ysbryd Glân *y dydd hwnnw*, fe fyddent yn gwybod ei fod ef yn y Tad a'u bod hwythau ynddo ef a'i fod yntau ynddynt hwy (adnod 20).

Fe fyddai'n siwr o fod yn gwawrio ar y disgyblion erbyn hyn, os oeddent hwy'n mynd i fod 'yn y Mab' ac yntau 'ynddynt hwy', y byddai'n bosibl iddynt gael gwybod ganddo beth oeddent i'w weddïo 'yn ei enw'. A chan mai'r hyn a weddïent 'yn ei enw' a wnâi ef (Ioan 14:13), ac yntau 'ynddynt', fe fyddai'n bosibl hefyd iddynt gyflawni'r gweithredoedd y byddai efe yn eu cyflawni trwyddynt. Fe fyddai hynny'n rhoi diwedd ar eu penbleth.

Ond nid dyna'r cyfan a addawodd Iesu Grist. Ychwanegodd addewid ryfeddol arall:

(3) '*Yr hwn sydd a'm gorchmynion i ganddo ac yn eu cadw hwynt, efe yw'r hwn sydd yn fy ngharu i. A'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad i; a minnau a'i caraf ef ac a'm hamlygaf fy hun iddo*' (Ioan 14:21).

Y geiriau sy'n galw am ystyriaeth ofalus yw'r addewid a geir yng nghymal olaf yr adnod: 'A minnau a'i caraf ef *ac a'm hamlygaf fy hun* iddo.' Fel y gwelsom eisoes, nid rhoi gorchymyn i'w ddisgyblion gadw ei orchmynion os oeddent yn ei garu a wnaeth Iesu Grist yn adnod 15 (nac yn adnod 23 sy'n dilyn), ond yn hytrach eu sicrhau, os oeddent yn ei garu, y byddent yn sicr o wneud hynny. Yn yr adnod hon (adnod 21) dweud a wnaeth Iesu Grist mai'r unig bobl a fyddai'n ei garu fyddai'r bobl y byddai ei orchmynion ef ganddynt a hwythau yn eu cadw. Fe fyddai'r sawl fyddai'n ei garu yn awyddus i wneud yr hyn a wyddent fyddai'n ei foddhau fwyaf.

Byddai dau beth yn dilyn. Byddai ei Dad ac yntau yn eu caru hwythau: ‘A’r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad i; a minnau a’i caraf ef.’ Yn ail, byddai’n ei amlygu ei hun iddynt: ‘ac *a’m hamlygaf fy hun iddo’.*

Nid yw’n anodd dehongli cymal cyntaf ei addewid, ‘a gerir gan fy Nhad i a minnau a’i caraf’. Er bod y Tad a’r Mab wedi caru ‘ei eiddo ei hun’ o dragwyddoldeb (Ioan 17:23; 15 :9), ac er y bydd yn parhau i’w caru i dragwyddoldeb, mae eu gweld yn cadw gorchmynion y Mab yn ennyn cariad yn y Tad a’r Mab tuag atynt.

Mae’n bwysig fod pob un sy’n cyfrif ei hun yn ddisgybl i Iesu Grist yn cofio hyn. Fel y bydd Duw yn datgan ei werthfawrogiad o’u gweithredoedd da yn Nydd y Farn, felly hefyd, medd Iesu Grist, nid yw’n ddibwys ohonynt pan wêl hwynt yn cael eu cyflawni gan ei bobl. Dyna un rheswm paham y ceir sôn yn yr Ysgrythur am yr Ysbryd Glân yn cael ei ‘dristáu’ ac am ei ddylanwadau grasol yn cael eu ‘diffodd’ pan weithredwn mewn ysbryd croes i hynny.

Mae dehongli ail ran ei addewid gryn dipyn yn anoddach. Beth yn union a olygai Iesu Grist wrth yr ymadrodd ‘ac a’m hamlygaf fy hun iddynt’?

Y ferf ‘emffanitso’

Y mae dau ystyr posibl i’r ferf ‘emffanitso’ a gyfieithir gyda’r geiriau ‘a’m hamlygaf fy hun’ mewn cyfieithiadau diweddar o’r Ysgrythurau yn y Gymraeg. (Hwn yw’r unig dro y defnyddir y ferf yn efengyl Ioan.) Gall olygu person yn ei amlygu ei hun, neu gellir ei ddefnyddio i ddisgrifio person yn datgelu ei fwriadau neu ei feddyliau i eraill – cynorthwyo eraill i adnabod ei feddwl – fel, er enghraifft yn Hebreaid 11:14, ‘Canys y mae’r rhai sydd yn dywedyd y cyfryw bethau, yn *dangos yn eglur* eu bod yn ceisio eu gwlad eu hun.’

Y ddau ystyr gwahanol, yn ôl G. Abbot Smith yn ei *A Manual Greek Lexicon of the New Testament* yw (1) amlygu, arddangos; (2) cyhoeddi, gwneud yn hysbys. Yn ôl Strong yn ei *Greek Dictionary of the New Testament*, y ddau ystyr yw (1) ymddangos (yn bersonol); (2) dadlennu (trwy eiriau). Y ddau ddefnydd posibl, medd Grimm yn e*i Greek – English Lexicon* yw (1) amlygu, arddangos i’r golwg; (2) arwyddo,

dadlennu, cyhoeddi a gwneud yn hysbys. Dywed J.H. Moulton a G. Milligan yn eu *The Vocabulary of the Greek Testament* (Llundain, 1914-29) fod y gair yn cael ei ddefnyddio yn y papurfrwynau cynnar mewn ystyr lled-dechnegol i gyfeirio at 'wneuthur adroddiad swyddogol'. (Cyfeiria Leon Morris at y dyfyniad mewn nodyn ymyl y ddalen yn ei esboniad ar Efengyl Ioan, t. 653.)
Ac eithrio Beibl William Morgan, lle y cawn y geiriau 'ac a'm hegluraf fy hun iddo', caiff y ferf yn Ioan 14:21 a 22 ei dehongli'n ddieithriad mewn cyfieithiadau ac mewn esboniadau fel mynegiant o fwriad Iesu Grist i'w 'amlygu ei hun' o ran ei berson i'r sawl fyddai'n ei garu. Mae hyn yn gwbl ddealladwy, mae'n debyg, petai'n unig ar gyfrif y ffaith fod Iesu Grist, ddwy adnod yn flaenorol, wedi sôn am ei ddisgyblion, yn wahanol i'r byd, yn cael ei 'weld'. 'Eto ennyd bach, a'r byd ni'm gwêl mwy, eithr chwi a'm gwelwch' (Ioan 14:19a).

Gall fod yn ddealladwy. A yw'n gywir? Er bod cyfieithwyr Cymraeg diweddar wedi cefnu ar ei gyfieithiad, a yw'n bosibl mai William Morgan a'r hen Feibl Cymraeg sy'n gywir wedi'r cwbl? Mae'n annhebygol iawn fod Iesu Grist yn cyfeirio at y 'gweled' y soniodd amdano yn adnod 19. Yr hyn a fyddai'n cyfrif am y ffaith y byddent hwy yn gallu ei 'weled' fyddai ei fod ef yn 'fyw': 'Byw wyf fi a byw fyddwch chwithau hefyd.' Byddai'r 'bywyd tragwyddol' a fyddai ynddo ef yn sicrhau cadwraeth eu 'bywyd' hwythau. Byddent yn ei 'weled' ac yn ei adnabod pan ymddangosai iddynt wedi iddo atgyfodi.

Byddai'r profiad y cyfeiriai ato'n awr (yn adnod 21b) yn dibynnu ar eu bod yn fyw yn ysbrydol. Yr hyn a wnaeth Iesu Grist oedd adeiladu ar y rhagdybiaeth honno. Wedi cyfeirio at ddau beth a fyddai'n nodweddu y rhai a fyddai'n ei adnabod, sef eu bod yn ei garu ac o'r herwydd yn cadw ei orchmynion, roedd yntau'n crybwyll un fraint arbennig y byddai'r cyfryw yn ei mwynhau, nid fel nodwedd barhaol ond o bryd i'w gilydd: 'Ac a'm hegluraf/amlygaf fy hun iddo'.

Sut, felly, y gallwn benderfynu prun o'r ddwy ystyr oedd ym meddwl Iesu Grist? Ai rhoi addewid a wnaeth y byddai'n amlygu ei hun o ran ei berson, ai ynteu dweud y byddai'n ei egluro ei hun, ei feddyliau a'i fwriadau i'r sawl fyddai'n ei garu ac yn cadw ei orchmynion?

Ceir naw enghraifft o'r ferf 'emffanitso' a dwy enghraifft o'r ansoddair

‘emffanes’ yn y Testament Newydd. Heb gynnwys y ddwy enghraifft o’r ferf a geir yn Ioan 14:21 a 22, cawn fod dwy enghraifft o’r ferf (ynghyd â’r ddwy enghraifft o’r ansoddair ‘emffanes’) yn ddiamheuol yn cyfeirio at berson yn ei amlygu ei hun o ran ei berson. Cyfeiria’r enghraifft gyntaf at saint yn codi o’u beddau wedi i’r Arglwydd Iesu Grist atgyfodi: ‘[A’r saint] a ddaethant allan o’r beddau ar ôl ei gyfodiad ef, ac a aethant i mewn i’r ddinas sanctaidd, ac a *ymddangosasant* i lawer’ (Mathew 27:53). Cyfeiria’r ail at ymddangosiad Iesu Grist yn y gogoniant: ‘Canys nid i gysegr o waith llaw, portread y gwir gysegr, yr aeth Crist i mewn, ond i’r nef ei hun, *i ymddangos* yn awr gerbron Duw trosom ni’ (Hebreaid 9:24). Gwelir yr ansoddeiriau yn Actau 10:40, ‘Hwn a gyfododd Duw y trydydd dydd, ac a barodd ei wneuthur yn *weledig’,* ac yn Rhufeiniaid 10:20, ‘Gwnaed fi yn *eglur* i’r rhai nid oeddynt yn ymofyn amdanaf.’

Ar y llaw arall, os eithriwn unwaith eto y ddwy enghraifft a geir yn Ioan 14 :21 a 22, ceir pum enghraifft lle y defnyddir y ferf ‘emffanitsen’, gydag arddodiaid gwahanol, yn yr ail ystyr. Yn y gyntaf o’r enghreifftiau hyn (Actau 23:15), golyga ‘hysbysu’ (BC), ‘rhoi rhybudd’ (BCN), ‘deisyfu’ (NIV), ‘rhoi gwybod’ (NAS), ‘gwneud yn amlwg’ (J. B. Phillips). Yn y pedair enghraifft arall, cyfieithir y ferf fel a ganlyn: Actau 23:22 ‘dangos’ (TNC); ‘rhoi gwybod’ (BCN); Actau 24:1 ‘dwyn cyhuddiad’ (TCN); ‘dwyn achos’ (BCN); Actau 25:2, 15 ‘dwyn achwynion’ (TCN); ‘gosod achos’ (BCN). At y rhestr hon dylid ychwanegu Hebreaid 11:14 (a ddyfynnwyd eisoes): ‘Canys y mae’r rhai sydd yn dywedyd y cyfryw bethau, *yn dangos yn eglur* eu bod yn ceisio eu gwlad eu hun.’

Mewn sefyllfaoedd fel hyn, lle y gellir rhoi ystyron gwahanol i rai geiriau, rhaid gofyn a oes yna ystyriaethau esboniadol pam y dylid ffafrio un dewis yn fwy na’r llall. Credwn y gellir dadlau bod hynny’n wir yn yr achos hwn. Yr hyn a olygai Iesu Grist wrth yr addewid oedd, nid y byddai’n ei amlygu ei hun yn bersonol ond y byddai’n gwneud yn amlwg ei feddyliau a’i fwriadau i’r sawl a fyddai’n ei garu ac yn cadw ei orchmynion. Yn union fel y dywedodd ym mhennod 16 ac adnod 25 ei fod yn edrych ymlaen at yr amser pryd y gallai fynegi i’w ddisgyblion ‘yn eglur’ (yn ddiatal) am y Tad, dweud yr oedd yn y fan hyn ei fod yn edrych ymlaen at yr amser pryd y gallai amlygu ei fwriadau i’w ddisgyblion. Beth fyddai’r ystyriaethau esboniadol a fyddai’n peri ein bod yn ffafrio’r dehongliad hwnnw felly? Gallwn nodi chwe rheswm.

Y rhesymau pam

(1) Yr oedd Iesu Grist newydd hysbysu ei ddisgyblion yn Ioan 14:18 y byddai'n dychwelyd atynt. Cyfeirio yr oedd yn y geiriau hynny at ei ymddangosiad wedi iddo atgyfodi. Os nad oedd, wrth ddefnyddio'r ymadrodd 'ac a'm hamlygaf fy hun iddo' ar ddiwedd adnod 21, yn golygu rhywbeth gwahanol i 'amlygu ei hun o ran ei berson', gallasai'r disgyblion yn hawdd fod wedi casglu ei fod yn addo ymddangos mewn ffordd debyg i'r ymddangosiadau hynny ym mywyd pawb a fyddai'n ei garu yn y dyfodol – 'Ac a'm hamlygaf fy hun iddo.'

(2) A yw'n ddichonadwy y buasai'r Arglwydd Iesu Grist yn cyfeirio ato'i hun yn ei amlygu ei hun (o ran ei berson) heb wneud unrhyw gyfeiriad at ei Dad, os hynny oedd ganddo mewn golwg? Yr oedd ar fedr crybwyll wrth ei ddisgyblion am y tro cyntaf, o dderbyn yr Ysbryd Glân, y byddent nid yn unig yn gwybod 'ei fod ef ynddynt' hwy; byddai'r Tad ynddynt hefyd: 'A nyni a ddeuwn ato ac a wnawn ein trigfa gydag ef.' *Pryd bynnag y byddai Iesu Grist yn cael achos i sôn am unrhyw 'ogoniant' a fyddai'n ei nodweddu ef, gofalai wneud cyfeiriad cyfatebol at ogoniant y Tad*.

Cafwyd dwy enghraifft drawiadol iawn o hyn ychydig yn ddiweddarach y noson honno. Digwyddodd y gyntaf pan eglurodd i'w ddisgyblion y byddai'r Ysbryd Glân, y byddai ef yn ei anfon atynt, yn ei ogoneddu: 'Efe a'm gogonedda i, canys efe a gymer o'r eiddof ac a'i mynega i chwi.' Rhag rhoi'r argraff ei fod yn ddibris o'i Dad, prysurodd i ychwanegu: 'Yr holl bethau sydd eiddo'r Tad ydynt eiddof fi. Oherwydd hyn y dywedais mai o'r eiddof fi y cymer, ac y mynega i chwi' (Ioan 16:14-15). Digwyddodd yr ail enghraifft ar ddiwedd ei weddi offeiriadol pan oedd yn egluro pam ei fod mor daer fod ei ddisgyblion yn cael eu cadw 'lle'r oedd efe'; 'fel y gwelont fy ngogoniant', meddai. Yn union wedi llefaru'r geiriau hyn, fe roes brawf – os oes angen prawf arnom – mor fawr oedd ei ofal dros ogoniant ei Dad: 'Y Tad cyfiawn, nid adnabu'r byd dydi, eithr mi a'th adnabûm, a'r rhai hyn a wybu mai tydi a'm hanfonodd i. Ac mi a hysbysais iddynt dy enw, ac a'i hysbysaf; fel y byddo ynddynt y cariad â'r hwn y ceraist fi, a minnau ynddynt hwy' (Ioan 17:25-26).

A allwn ni ddychmygu'r sefyllfa yn yr oruwchystafell y noson honno? Iesu Grist ar fedr hysbysu'r disgyblion am y tro cyntaf y byddai'r Tad yn ogystal ag ef yn dod i breswylio ynddynt. Yntau, ennyd bach yn flaenorol, yn sôn amdano'n ei amlygu ei hun heb wneud unrhyw gyfeiriad at y Tad? 'A gerir gan fy Nhad a minnau a'i caraf ef *ac a'm hamlygaf fy hun iddo*.' Os hynny a olygai, byddai'n ymddwyn yn hollol groes i'w

ymddygiad arferol mewn perthynas â'i Dad.

(3) Yn Ioan 14:21 a 23 yr oedd Iesu Grist yn rhoi addewid a oedd i gael ei chyflawni ym mywydau'r rhai a fyddai'n ei garu: 'A'r hwn sydd yn fy ngharu i, a gerir gan fy Nhad i; a minnau a'i caraf ef ac a'm hamlygaf fy hun iddo.' Nid dyna'r ffordd y byddai'r Arglwydd Iesu Grist yn arferol yn cyfeirio at y disgyblion yn cael 'gweled ei ogoniant'. Pan gyfeiriodd ato'i hun yn anfon yr Ysbryd Glân o'r nefoedd, dywedodd am y disgyblion: 'Efe a'm gogonedda i . . . ac a'i mynega i chwi.' Mewn gweddi'n ddiweddarach meddai amdanynt, 'fel y gwelont fy ngogoniant'. Nid yw'n cyfeirio at unrhyw amod.

Ar y llaw arall, os cyfeirio'r oedd at 'egluro' neu ddadlennu ei hun, gan olygu ei fwriadau, mor briodol ydoedd iddo bwysleisio na ddigwyddai hynny i neb ond y sawl a fyddai'n ei garu ac yn cadw ei orchmynion.

(4) Yng ngoleuni'r cyd-destun, onid yw'n llawer mwy tebygol mai dweud yr oedd Iesu Grist y byddai'n egluro ei fwriadau i'w ddisgyblion? Y pwnc dan drafodaeth oedd sut y gallai'r disgyblion wybod beth fyddai ef yn ei wneud, fel y gallent weddïo ar hyd y llinellau hynny ac yna eu rhoi eu hunain i wneud y peth hwnnw gydag ef. Pa werth fyddai iddo fod wedi dweud (yn Ioan 14:12) y byddai'r sawl a fyddai'n credu ynddo ef yn gwneud y gweithredoedd y byddai efe yn eu gwneud, os nad oedd yn barod i wneud ei fwriadau'n hysbys iddynt? Sut y gall canghennau'r winwydden ddwyn ei ffrwyth oni fydd yr Arglwydd Iesu Grist yn barod i roi gwybod beth yw'r ffrwyth hwnnw i fod?

(5) Mae'n amlwg oddi wrth eiriau a lefarodd Iesu Grist ychydig yn ddiweddarach y noswaith honno ei fod yn awyddus i'w ddisgyblion ddeall pa mor barod ydoedd i roi gwybod iddynt beth fyddai'n ei wneud:

'Chwychwi yw fy nghyfeillion os gwnewch pa bethau bynnag yr wyf yn eu gorchymyn i chwi. Nid ydwyf mwyach yn eich galw yn weision, oblegid y gwas ni wyr beth y mae ei feistr yn ei wneuthur; ond mi a'ch gelwais chwi yn gyfeillion, oblegid pob peth a glywais gan fy Nhad, a hysbysais i chwi' (Ioan 15:14-15).

Yn nameg y Bugail Da sicrhaodd y Phariseaid, ac eraill oedd yn gwrando, y byddai ei ddefaid yn 'adnabod ei lais': 'Ac wedi iddo yrru allan ei ddefaid ei hun, y mae

efe yn myned o'u blaen hwy; a'r defaid sydd yn ei ganlyn ef, oblegid y maent yn adnabod ei lais ef' (Ioan 10:4). Yn awr, yn yr oruwchystafell, y mae'n egluro i'w ddisgyblion y byddai'n hollol amhriodol iddo'u galw'n weision. 'Y gwas ni wyr beth y mae ei Arglwydd yn ei wneuthur.' Fe fyddent hwy yn gwybod. Yn union fel y rhannodd â hwy bob gair a glywodd gan y Tad, fe fyddai yr un mor barod i roi gwybod iddynt beth fyddai yntau'n ei wneud. Fe fyddai'n eu trafod fel cyfeillion, nid fel gweision.

(6) Byddai dehongli ei eiriau i olygu y byddai'n amlygu ei hun yn yr ystyr y byddai'n dadlennu ei fwriadau, yn ei gwneud yn llawer haws deall yr hyn oedd yn poeni Jwdas. Haws hefyd i werthfawrogi'r ateb a roes Iesu Grist iddo.

Amrywia'r esbonwyr yn eu dehongliad o'r hyn oedd yn peri'r penbleth hwnnw. Mae rhai'n awgrymu bod Jwdas yn cynrychioli aelodau o'r cwmni a oedd yn dal i deimlo braidd yn siomedig na fuasai Iesu Grist wedi ei arddangos ei hun i'r byd mewn ffordd fwy trawiadol, fel prawf mai ef oedd y Meseia addawedig. 'Arglwydd,' meddai, 'pa beth yw'r achos yr wyt ar fedr dy amlygu dy hun i ni ac nid i'r byd?' Oni fyddai'n fwy manteisiol iddo ei arddangos ei hun i'r byd? Mae eraill yn ffafrio'r farn mai eisiau deall yr oedd Jwdas sut y llwyddai i wneud hynny i'r disgyblion yn unig, ac nid i'r byd.

A barnu wrth yr ateb a gafodd Jwdas, mae'n lled amlwg bod Iesu Grist ei hun yn deall mai'r ail gwestiwn oedd ar ei feddwl. Nid at unrhyw ymddangosiad corfforol y cyfeiriai. Y pwnc dan ystyriaeth oedd sut y gallai ei ddisgyblion wybod beth oeddent i weddïo amdano 'yn ei enw' ac yntau'n eu gadael.

Yr hyn a wnaeth Iesu Grist oedd cadw at ei bwnc. Roedd wedi egluro iddynt eisoes y byddai iddynt dderbyn yr Ysbryd Glân yn golygu y byddai yntau ynddynt hefyd: 'Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, a minnau ynoch chwithau.' Yn awr mae'n ychwanegu deubeth pellach a fyddai'n wir am y mewnbreswyliad hwnnw. Yn gyntaf, byddai ei Dad ac yntau'n dod i breswylio yn eu calonnau: 'Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair, a'm Tad a'i câr yntau, *a nyni a ddeuwn ato*.' Yn ail, fe fyddent yn dod i aros. Nid trefniant dros dro a fyddai, ond trefniant parhaol: '*a nyni a ddeuwn ato ac a wnawn ein trigfa gydag ef.*' Doedd dim angen i Jwdas boeni. Fe lwyddai Iesu Grist i roi gwybod i'w ddisgyblion beth fyddai ei fwriadau heb i'r byd wybod dim am yr hyn oedd yn digwydd.

Cymorth pellach

A allwn ni gymryd mai hyn oedd y cyfan o gymorth y teimlai Iesu Grist y byddai ei angen ar y disgyblion i'w galluogi i weddïo yn ei enw, a thrwy hynny ddod i wybod beth fyddai ef yn ei wneud ac yna wneud y peth hwnnw gydag ef? A oedd ganddo ragor i'w ychwanegu? Digwyddai tri pheth pwysig iawn o ganlyniad i Iesu Grist weddïo drostynt:

(1) *Mewnbreswyliad yr Ysbryd Glân*: 'Mi a weddïaf ar y Tad, ac efe a rydd i chwi Ddiddanydd arall, fel yr arhoso gyda chwi yn dragwyddol. Ysbryd y gwirionedd, yr hwn ni ddichon y byd ei dderbyn . . . y mae yn aros gyda chwi ac ynoch y bydd efe' (Ioan 14:16-17).

(2) *Mewnbreswyliad y Mab*: 'Ni'ch gadawaf chwi yn amddifaid; mi a ddeuaf atoch chwi . . . Y dydd hwnnw y gwybyddwch fy mod i yn fy Nhad, a chwithau ynof fi, *a minnau ynoch chwithau*' (Ioan 14:18, 20).

(3) *Mewnbreswyliad y Tad a'r Mab*: 'Os câr neb fi, efe a geidw fy ngair, a'm Tad a'i câr yntau, a nyni a ddeuwn ato ac a wnawn ein trigfa gydag ef' (Ioan 14:23).

Fe fyddai derbyn yr Ysbryd Glân yn golygu y byddent wedi derbyn y Tad yn ogystal â'r Mab i fewnbreswylio ynddynt, ac y byddent hwythau'n mewnbreswylio yn y Tad a'r Mab. Trwy dderbyn yr Ysbryd Glân deuai'r 'undeb ysbrydol', a oedd i'w nodweddu yn eu perthynas â'r Drindod Sanctaidd, yn ffaith yn eu bywydau. Wedi egluro hyn i'w ddisgyblion, pa gymorth pellach fyddai ei angen arnynt? *Aeth Iesu Grist yn ei flaen i esbonio y byddai gan yr Ysbryd Glân hefyd ei weinidogaeth ei hun i'w chyflawni yng nghalonnau ei ddisgyblion.*

'Y pethau hyn a ddywedais wrthych, a mi yn aros gyda chwi. Eithr y Diddanydd, yr Ysbryd Glân , yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddysg i chwi bob peth, ac a ddwg ar gof i chwi bob peth a ddywedais i chwi' (Ioan 14:26).

Pwysleisiodd yn barod os oedd ei ddisgyblion yn ei garu, y byddent yn sicr o 'gadw' ei orchmynion a'i Air. Yr hyn a ychwanegai yn awr oedd y byddai arnynt angen athro, er hynny, a fyddai'n eu 'dysgu' sut i roi 'pob peth' a rannodd â hwy mewn gweithrediad,

sef ‘Cynorthwywr’ a allai ddwyn ar gof i’r disgyblion, yn ôl y galw, ‘bob peth’ a rannodd â hwy. Yr Ysbryd Glân fyddai hwnnw.

Byddai ‘pob peth’ a berthynai i ddysgeidiaeth Iesu Grist yn gynwysedig yng ngweinidogaeth yr Ysbryd Glan: ‘Efe a ddysg i chwi bob peth’. Naturiol yw i ni ddisgwyl y byddai’r hyn a rannodd â hwy ynghylch y modd yr oedd am iddynt gydweithio ag ef wedi ei ymadawiad yn rhan bwysig iawn o’r ‘pob peth’ hwnnw. (Roedd y ffaith ddarfod iddo gadw’r wybodaeth hon hyd y noson olaf a dreuliodd yn eu cwmni yn brawf o’r pwysigrwydd a osodai arni.) Ac fe fyddai iddynt ddysgu gweddïo ‘yn ei enw’ yn rhan bwysig o’r ddysgeidiaeth honno. Cyfeiriodd at hynny deirgwaith cyn mynd i weddi ar eu rhan: (a) Ioan 14:13 a 14; (b) Ioan 15:16; (c) Ioan 16:23, 24, 26.

Gwyr pob un sy’n gyfarwydd â dysgeidiaeth y Testament Newydd fod y swyddogaeth o alluogi’r credadun i weddïo yn unol ag ewyllys Duw yn cael ei phriodoli mewn modd arbennig iawn i’r Ysbryd Glân. ‘A’r un ffunud y mae’r Ysbryd hefyd yn cynorthwyo ein gwendid ni. Canys ni wyddom ni beth a weddïwn megis y dylem; eithr y mae’r Ysbryd ei hun yn erfyn trosom ni ag ocheneidiau anhraethadwy. A’r hwn sydd yn chwilio y calonnau a wyr beth yw meddwl yr Ysbryd, canys y mae efe yn ôl ewyllys Duw yn erfyn dros y saint’ (Rhufeiniaid 8:26).

Yr hyn a eglurir gan yr apostol yw fod yr Ysbryd Glân yn galluogi’r disgyblion i wneud yr hyn a ddywedodd Iesu Grist y byddai’n angenrheidiol iddynt ei wneud er mwyn dod i wybod yr hyn y byddai ef yn ei wneud! Yr hyn fyddai’n angenrheidiol fyddai iddynt weddïo gyda mesur o argyhoeddiad eu bod yn gweddïo’r weddi honno ‘yn enw Iesu Grist’ neu, os mynner, ‘yn unol ag ewyllys Duw’. Fe fyddai’r Ysbryd Glân yn eu galluogi i wneud hynny – a’i wneud gyda chalonnau cywir a thaer – ‘ag ocheneidiau anhraethadwy’. ‘A’r hwn sydd yn chwilio’r calonnau, a wyr beth yw meddwl yr Ysbryd, canys y mae efe yn ôl ewyllys Duw yn erfyn dros y saint’ (Rhufeiniaid 8:27).

Gweddïo yn yr Ysbryd

Mae’n deg cydnabod, ar wahân i’r hyn a ddywedodd Iesu Grist ar y pwnc yn yr oruwchystafell ar y noson olaf cyn eu gadael, na cheir un cyfeiriad at weddïo ‘yn enw Iesu Grist’ yn unman arall trwy weddill y Testament Newydd i gyd. Ceir sôn am wneud pethau eraill ‘yn ei enw’ ond nid am ‘weddïo yn ei enw’. O gofio’r arbenigrwydd a roes Iesu Grist y noson honno ar fod ei ddisgyblion yn gweddïo felly, a’r

addewidion rhyfeddol a roes iddynt pe gwnaent hynny, ni allwn lai na synnu at y distawrwydd.

Ni ddylid, mae'n wir, ddiystyru geiriau'r apostol: 'A pha beth bynnag a wneloch, ar air neu ar weithred, gwnewch bob peth yn enw'r Arglwydd Iesu, gan ddiolch i Dduw a'r Tad trwyddo ef' (Colosiaid 3:17). Gellir dadlau bod y geiriau hynny'n golygu, yn ogystal â phopeth arall a wnawn, ein bod i weddïo felly hefyd. Er hynny, mae'n parhau i beri syndod nad oes un cyfeiriad arall at weddïo felly yn unman trwy'r Testament Newydd o'i gwr. Beth a allasai gyfrif am hyn tybed?

Mae'r ateb yn syml. Edrychwn yn ôl am ennyd. Yr hyn a addawodd Iesu Grist oedd y byddai pob un a fyddai'n credu ynddo ef yn gallu gwneud yr hyn y byddai efe yn ei wneud, ac mai trwy weddïo gweddïau yn ei enw y deuent i wybod beth fyddai'r pethau hynny. Ond sut y gallent wybod beth fyddai'r gweddïau hynny? Eglurodd iddynt fod ganddynt ei 'air' a'i orchmynion. Os oeddent yn ei garu, byddent yn 'cadw'r' rheini, ac fe roddent hwy beth arweiniad iddynt. Byddai yntau'n gweddïo drostynt, a byddai'r Tad yn rhoi'r Ysbryd Glân iddynt. Byddai hynny'n golygu ei fod ef, ynghyd â'r Tad, ynddynt. Byddai yntau'n rhoi gwybod iddynt beth fyddai ei fwriadau. Ni ddywedodd sut y gwnâi hynny, dim ond dweud y digwyddai: 'ac a'm hegluraf fy hun iddo'. Dyna i gyd, hyd nes iddo gyrraedd ei ddisgrifiad o beth fyddai gweinidogaeth yr Ysbryd Glân: '*Y Diddanydd, yr Ysbryd Glân, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddysg i chwi bob peth, ac a ddwg ar gof i chwi bob peth a ddywedais i chwi*' (Ioan 14:26).

Trwy fewnbreswyliad a gweinidogaeth yr Ysbryd Glân y deuwn i'r perswâd ein bod yn gweddïo ar linellau arbennig 'yn ei enw'. Dyna paham, wrth gwblhau'r darlun o'r arfogaeth lawn y mae'r saint i'w gwisgo, nad yw'r apostol yn petruso eu hannog i weddïo 'bob amser â phob rhyw weddi a deisyfiad yn yr Ysbryd' (Effesiaid 6:18a). Does neb yn awgrymu ein bod i weddïo 'yn enw'r Ysbryd Glân'. Ein cynorthwyo i wybod beth fyddai'n unol ag ewyllys Duw a wna'r Ysbryd Glân. Gweddïo 'yn yr Ysbryd' fydd yn ein galluogi i weddïo 'yn enw Iesu Grist'.

Yr hyn y mae'r Arglwydd Iesu Grist yn ei ddweud wrth ei ddisgyblion yw ei fod yn barod i ddadlennu beth yw ei fwriadau a'i fod yn barod i wneud hynny i'r fath raddau fel y byddai modd iddynt weddïo'r weddi a fyddai'n codi o'r dadleniad hwnnw 'yn ei enw'. Yr un peth yn hollol a ddywed yr apostol am yr Ysbryd Glân: ei fod ef yn abl i'n

galluogi i weddïo ‘fel y dylem’, hynny yw yn unol ag ewyllys Duw. A’i fod yn abl i wneud hynny fel ein bod yn cael ein hargyhoeddi ein bod yn deisyfu drosto neu ar ei ran.

Y modd y deuwn i adnabod y weddi honno fydd trwy sylweddoli ei bod hi bob amser yn ennyn ochenaid anhraethadwy yn ein heneidiau. Ymwybyddiaeth ddofn o addasrwydd yr ewyllys honno i’r sefyllfa fydd dan ystyriaeth ac i bopeth a ddysg yr Ysgrythur am Dduw ac am yr iachawdwriaeth a drefnodd ar ein cyfer, fydd yn peri’r griddfan. Hynny ynghyd ag ymwybyddiaeth ddofn hefyd o gryfder y pwerau fydd yn gwrthwynebu’r ewyllys honno – yn ein bywyd ni ein hunain ac ym mywyd eraill. (Am ymdriniaeth lawnach â’r pwnc, cymeradwywn yn gynnes iawn ddehongliad Dr Martyn Lloyd-Jones ar Rhufeiniad 8:26, 27 mewn tair pregeth yn ei gyfres ar Rhufeiniaid (*Romans: An Exposition of Chapter 8: 17-39: The Final Perserverance of the Saints*, The Banner of Truth Trust, 1975, tt.120-157).

Gallai cael gafael gadarn ar ystyr ac arwyddocâd y gwirionedd hwn newid ein syniad am weddïo yn gyfan gwbl.Yr hyn a ddymuna pob Cristion yn ei galon yw gallu gweddïo gweddïau a fydd yn unol ag ewyllys Duw. Ein tuedd yw gwneud ein gorau i ddod o hyd i’r ewyllys honno ein hunain ac yna, wrth ddiweddu, ddisgyn yn ôl ar y deisyfiad, os ydym wedi methu dod o hyd iddi, y bydd i Dduw beri bod ei ewyllys ef yn cael ei chyflawni sut bynnag. (Ni chymer hi byth yn hir inni weddïo felly.) Mor aml pan weddïwn y cymerwn yn ganiataol mai ni sydd i wneud ein gorau i berswadio ein Harglwydd i ganiatáu i rai pethau ddigwydd.

Pwysleisia’r Ysgrythur yn hytrach mai cyfrwng ydyw i’n Harglwydd a’n Duw ein dwyn ni i ofyn am yr hyn y bwriada ef ei wneud. A ellir dychmygu unrhyw beth a allai fod yn fwy trist na bod Iesu Grist trwy ei Ysbryd yn trigo o’n mewn a’i fod trwy yr un Ysbryd Glân yn barod i’n harwain i weddïo am yr hyn fyddai’n unol â’r hyn y bwriada ei wneud, a’n bod ninnau’n ymatal rhag y ddisgyblaeth o geisio’r weddi honno? Fe gymer amser yn sicr. Hyn yn ddiau oedd yn cyfrif am y ffaith fod ein cyndadau ysbrydol yn ei gwneud yn arfer oes i neilltuo cymaint o’u hamser ag a allent i geisio wyneb Duw mewn gweddi.

Nid gweddïo yn lle’r crediniwr a wnaiff yr Ysbryd Glân, fel pe byddai raid goleuo’r Tad beth fyddai’r weddi honno. Gwyr y Tad beth yw’r weddi. ‘A’r hwn sydd yn chwilio’r calonnau, a wyr beth yw meddwl yr Ysbryd, canys y mae efe yn ôl ewyllys

Duw yn erfyn dros y saint' (Rhufeiniaid 8:27). Y crediniwr sy'n anwybodus. 'Ni wyddom ni beth a weddïwn megis y dylem.'

Gwerth y defnydd a wnaeth Iesu Grist o'r ymadrodd gweddïo am rywbeth 'yn ei enw' yw ei fod yn crisialu yn ein meddyliau y syniad fod yn rhaid inni gael ein harwain ganddo i wybod beth i ofyn amdano fel y byddwn yn gofyn am yr hyn y bwriada efe ei wneud. Mae'n ymadrodd godidog i esbonio i'r saint pa mor werthfawr yw'r adegau hynny a wariwn yn ei wydd pryd y bydd yn ein perswadio, oni fydd yn ein hargyhoeddi, mai dyna'r weddi y gallwn ei gweddïo 'yn ei enw'. 'Hynny hefyd a wnaf', meddai.

Mae'n llwybr gogoneddus i'w ddilyn: pechaduriaid a gymodwyd â Duw, trwy ras a thrwy ffydd, yn cael achos i ryfeddu'n ddyddiol at yr undeb ysbrydol sydd rhyngddynt bellach â'r Tad ac â'r Mab, yn ymddiried yn yr Ysbryd Glân i arwain eu meddyliau, eu myfyrdodau a'u gweddïau i gyfeiriad ewyllys Duw, a'r un pryd yn cadw llygad barcud ar orchmynion Iesu Grist ac ar ei air rhag mynd ar gyfeiliorn. Yna, wedi profi mesur o berswâd fod hynny wedi digwydd, gweddïo ar hyd y llinellau hynny.

Dirwyn i ben?

Nid yw'n rhyfedd o gwbl mai geiriau nesaf Iesu Grist oedd: '*Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi chwi. Nid fel y mae y byd yn rhoddi yr wyf fi yn rhoddi i chwi. Na thralloder eich calon ac nac ofned*' (Ioan 14:27).

Swm a sylwedd y cyfan a esboniodd Iesu Grist i'w ddisgyblion y noswaith honno oedd ei fod wedi egluro iddynt beth oedd cyfrinach bywyd o dangnefedd meddwl a chalon. Y gymynrodd a adawai iddynt oedd 'tangnefedd' – yr un tangnefedd â'r tangnefedd a fu'n brofiad iddo ef yn ei berthynas â'i Dad nefol. Y cyfan a allai Iesu Grist ei wneud yn ystod ei fywyd, yn wir y cyfan yr oedd angen iddo'i wneud, oedd gwneud yr hyn 'a welai efe y Tad yn ei wneuthur'. A chan fod y Tad ynddo ef ac yntau yn y Tad, a bod y Tad, a oedd ynddo, yn ei garu, ac o'r herwydd yn dangos iddo 'yr hyn oll yr oedd efe yn ei wneuthur', nid gwaith anodd iddo oedd gwneud yr hyn a wnâi'r Tad trwyddo.

Felly hwythau'r disgyblion, eu braint fyddai cael gwneud yr hyn y byddai ef yn ewyllysio'i wneud ynddynt a thrwyddynt fel unigolion a chydag eraill. Fe gaent wybod beth fyddai'n ei wneud trwy gael gwybod ganddo beth i'w weddïo 'yn ei enw'.

Deuent i wybod beth fyddai'r gweddïau hynny trwy roi eu hunain i gadw ei orchmynion ac ymddiried yn yr Ysbryd Glân i'w 'dysgu am bob peth'. Yn y pen draw, golygai ymddiried yn Iesu Grist y byddai'n dadlennu ei fwriadau iddynt ac yna, er gogoniant i'w Dad nefol, yn eu cyflawni trwyddynt.

Nid ymffrost gwag ar ei ran oedd iddo ddweud 'Yr wyf yn gadael i chwi dangnefedd; fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi. Nid fel y mae y byd yn rhoddi yr wyf fi yn rhoddi i chwi.' Mae'n asesiad teg a chyfrifol. Nid anogaeth heb fod unrhyw sail iddi chwaith oedd iddo ychwanegu: 'Na thralloder eich calon ac nac ofned.' Mae'n orchymyn teg a chyfrifol.

A allwn ni gymryd fod Iesu Grist wedi dweud popeth a fwriadai ei ddweud ar y pwnc fu dan sylw ganddo? Mae ei eiriau nesaf, yn sicr, yn debyg iawn i eiriau i gloi: 'Clywsoch fel y dywedais wrthych, "Yr wyf yn myned ymaith, ac mi a ddeuaf atoch." Pe carech fi, chwi a lawenhaech am i mi ddywedyd, "Yr wyf yn myned at y Tad"; canys y mae fy Nhad yn fwy na myfi. Ac yr awron y dywedais i chwi cyn ei ddyfod, fel pan ddêl, y credoch. Nid ymddiddanaf â chwi nemor bellach; canys tywysog y byd hwn sydd yn dyfod, ac nid oes iddo ddim ynof fi. Ond fel y gwypo'r byd fy mod i yn caru'r Tad, ac megis y gorchmynnodd y Tad i mi, felly yr wyf yn gwneuthur. Codwch, awn oddi yma ' (Ioan 14:28-31).

Ni wyddom i sicrwydd a adawsant yr oruwchystafell wedi iddo lefaru'r geiriau hyn, ai penderfynu aros a wnaethant am beth amser ymhellach. Yr hyn sy'n hollol glir yw fod Iesu Grist wedi cadw at ei bwnc! Y peth nesaf a ddigwyddodd oedd iddo grynhoi'r gwirioneddau a rannodd â hwy y noson honno a'u rhoi iddynt ar ffurf dameg neu alegori* fel y myn rhai ei disgrifio: dameg y Wir Winwydden. Fe fyddai Paul a Phedr yn dilyn ei esiampl yn ddiweddarach, Paul yn ei lythyrau at yr Effesiaid (4:11-16) ac at y Corinthiaid (1 Corinthiaid 12:4-31) trwy ddefnyddio'r corff dynol i ddisgrifio perthynas Iesu Grist â'i eglwys, a Phedr (yn 2 Pedr 4:10) trwy gymryd adeilad fel darlun i'r un diben. Cawn ystyried ei eiriau yn y bennod nesaf.

- Gweler, er enghraifft, D.A. Carson, *The Gospel According to John*, Inter Varsity Press, 1991, t.513.